

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol: Adroddiad sy'n adfyfrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth.

Targedau

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn
Targed 1	Gwneud mwy o gysylltiad rhwng theori ac ymarfer trwy cysyllti'r ddau yn ôl y profiadau rwyf wedi cael ar PAP ac yn y brifysgol.	Cysylltu canllawiau llywodraethol a llenyddiaeth ehangach i'r hyn mae ysgol wedi gweithredu wrth adfyfrio ar ei heffaith.
Targed 2	Gwella dadansoddi beirniadol trwy ddefnyddio Banc Ymadroddion Academaidd Banc Brawddegau Cymraeg: Adroddiad Ymchwil - Banc Brawddegau Cymraeg: Adroddiad Ymchwil (bangor.ac.uk)	Ceisio amrywio dechreuad brawddegau trwy'r adroddiad.

Cyflwyniad

Gwerthusiad o Gynllun Datblygiad Ysgol (CDY) o ysgol cyfrwng Cymraeg 3-19 yn De Cymru yw'r adroddiad hwn, gan rhoi ffocws i'r datblygiad o sgiliau rhifedd ar draws yr ysgol yn benodol. Gweithredwyd ar gynllun tair blwyddyn yn yr ysgol hon, ac felly adfyfiriwyd ar y camau gweithredu a'r effaith ar ddysgwyr o fewn cyd-destun o eleni fel blwyddyn gyntaf y cynllun. Dilynir canllaw BERA (2018) yn yr adroddiad hwn, er mwyn sicrhau anhysbysrwydd, ac felly ni enwir enw'r ysgol na chyfranogwyr perthnasol eraill ar unrhyw adeg. Mae dros 600 o ddysgwyr o fewn yr ysgol hon, yn ymestyn o feithrin i'r chweched dosbarth, gyda 41% ohoni yn dod o gartrefi iaith Cymraeg (Estyn, 2017). Mae 8% o ddysgwyr yn derbyn prydiau bwyd am ddim, sy'n llai na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae tua 9% wedi ei gofrestru fel dysgwyr gyda anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (Ibid., tud.1). Yn ogystal â hyn, nodwyd yr adroddiad Estyn hwn bod y datblygiad o sgiliau rhifedd ar draws yr ysgol yn gynhwysfawr, er mae cydnabyddiaeth yn cael ei roi i'r ffaith cafodd yr adroddiad hwn ei gyflwyno cyn i'r CDY presennol cael ei gyhoeddi.

Gan dynnu ar lenyddiaeth eang, pwrpas y traethawd hwn yw i adfyfrio ar y camau gweithredu nodwyd gan yr ysgol wrth iddynt ddatblygu sgiliau rhifedd dysgwyr ar draws yr ysgol. Yn ogystal â hyn, mae ystyriaeth yn cael ei roi i awgrymiadau posib gall yr ysgol gweithredu er mwyn datblygu'r maes hwn ym mhellach.

Adolygiad o Lenyddiaeth

Cynllun Datblygiad Ysgol (CDY) yw cynllun strategol sy'n adnabod meysydd ar gyfer gwelliant o fewn ysgolion, gan amlinellu sut a phryd mae'r ysgol yn bwriadu ei ddatblygu (Llywodraeth Cymru, 2014). Ers y 1af o Fedi, 2015, mae'r cyhoeddiad o'r fath hon o gynllun tair blynedd wedi bod yn ofynnol yng Nghymru, gyda'r bwriad o hyrwyddo cyfleodd i ysgolion i hunanwerthuso ar gynnydd ei blaenoriaethau yn barhaus (Llywodraeth Cymru, 2016). Amlinellodd Estyn y diben ar gyfer gwella ysgolion fel;

“...helpu ysgolion i roi'r profiadau a'r deilliannau dysgu gorau posibl i ddysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, er mwyn sicrhau safonau ac uchelgeisiau uchel i bawb.”

(Estyn, 2023, tud.1).

Cysylltir y proses hwn gyda'r syniad o ysgol fel sefydliad dysgu (Llywodraeth Cymru, 2017) gyda'r OECD (2016) yn datgan bod trwy benodi blaenoriaethau a chynllunio ar ei gyfer, maent yn galluogi'r un weledigaeth i gael ei rannu ar draws y staff. Cefnogir hyn gan astudiaeth achos Estyn (2020), ble darganfuwyd bod trwy ddarparu cyfrifoldebau ar draws yr ysgol, mae gan bob aelod o staff nid yn unig y ddealltwriaeth drylwyr o'r meysydd datblygu, ond hefyd yn rhoi'r cyfle iddyn nhw i ddatblygu ei dysgu proffesiynol trwy ymchwilio a myfyrio. Cefnogir hyn gan waith Harris (2013), sy'n datgan bod datblygiad addysgwyr yn ganolog i ddatblygiad ysgol. Gwelir hyn o fewn canllaw gwella ysgolion Llywodraeth Cymru (dim dyddiad), sy'n amlinellu'r prosesau gwerthuso ac arweinyddiaeth fel rhan hanfodol o'r ysgol fel sefydliad dysgu sy'n atebol am yr hyn maent yn gweithredu. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn o dan ganllaw 'gwerthuso, gwella ac atebolrwydd' y Cwricwlwm i Gymru, gan gyflwyno fframwaith cenedlaethol am weithredu "gwelliant cynaliadwy mewn ysgolion" (Ibid., tud.1). Mae'r agwedd atebolrwydd felly yn amlygu ei hun fel rhan annatod o wella ysgolion, gan hybu addysgwyr i adfyfrio yn barhaus ac i weithredu strategaethau datblygu effeithiol ar sail tystiolaeth a gwybodaeth ddibynadwy.

Trafododd Schildkamp (2019) yr awgrymiad hwn, o wneud penderfyniadau gwella ysgol ar sail data, gan gefnogi'r safbwynt bod gan wybodaeth a thystiolaeth rôl arwyddocaol mewn sicrhau llwyddiant yr ysgol. Cyflwynwyd bod er mae ysgolion eisoes wedi casglu data ar gyrhaeddiad dysgwyr, mae hi'n bwysig i sicrhau bod y data hwn yn bwrpasol a pherthnasol.

Hynny yw, gan nid yn unig casglu data ar gynnydd meysydd dysgu ac addysgu, ond hefyd gan gasglu data ynglŷn â systemau addysg a llenyddiaeth ehangach. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth hyn felly, maent yn galluogi addysgwyr i werthuso ar gynnydd yn fwy manwl, ac i osod targedau clir a gwybodus ar y CDY. Cefnogir hyn gan adroddiad 'Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd' Estyn (2016), sy'n cyflwyno'r pwysigrwydd o sicrhau bod wrth hunanwerthuso, mae'r dystiolaeth a gwybodaeth defnyddir yn "cysylltu agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol" (Ibid., tud.3). Er hyn, tynnodd Schmoker (2003) sylw i'r anawsterau sy'n codi wrth i addysgwyr ceisio dadansoddi a defnyddio'r data hyn yn ymarferol. Nodwyd bod nifer o addysgwyr yn methu i adnabod gwendidau o fewn ei dosbarth neu bwnc, ac o ganlyniad mae gor-dadansoddiad o'r data yn cael ei wneud. Awgrymwyd felly bod trwy osod targedau ar sail y cryfderau a gwendidau adnabuwyd, maent yn galluogi addysgwyr i werthuso ar ddata ffurfiannol trwy'r flwyddyn, ac adfyfrio a chynllunio ar gyfer gwelliant pellach.

Er cefnogaeth eang o'r proses creu CDY, nododd canllaw 'Asesiad o'r effaith' Llywodraeth Cymru (2022) bod hi'n bwysig i ysgolion sicrhau nad ydynt yn gwerthuso mesurau perfformiad tymor byr. Yn hytrach, mae proses o newid diwylliant ysgol yw hi, ac felly mae angen i ysgolion ail-feddwl sut a beth maen nhw'n gwerthuso er mwyn sicrhau llwyddiant pob dysgwr. Cefnogir hyn gan waith Ylimaki & Brunderman (2022), gan ddiffinio'r proses fel un o gynnydd parhaus. Ar sail hyn felly, mae'n bwysig i ymdrin â'r proses o wella ysgol mewn ffordd sy'n sicrhau llwyddiant gan rhannu cyfrifoldebau ac atebolrwydd ymysg staff, a gweithredu strategaethau cynaliadwy sydd medru cael ei weithredu ym mhellach wrth i'r CDY cael ei werthuso yn barhaus. Yn ogystal â hyn, mae rhoi'r cyfle i lais y dysgwr cael ei atgyfnerthu yn hanfodol ar gyfer cynyddu ymgysylltiad y dysgwyr at yr hyn sy'n cael ei weithredu (Estyn, 2020; Lyle & Hendley, 2010).

Ers y pandemig, mae safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru wedi gostwng (Llywodraeth Cymru, 2023), gyda phroffion PISA am y flwyddyn 2022 dangos sgoriau sylweddol is i gymharu gyda'r profion blaenorol yn 2018. Atgyfnerthir hyn gan ddatganiad Jeremy Miles MS (Llywodraeth Cymru, 2023), sy'n cyflwyno bod yr un tuedd i weld ar draws y Deyrnas Unedig. Er hyn, tynnodd Senedd Cymru (2023) sylw at y ffaith bod nid yw profion PISA yn gynrychiolaeth o'r sefyllfa llawn, ac felly ni gellir asesu cyrhaeddiad dysgwyr yn fyd-eang ar sail y profion hyn yn unig (NASUWT, 2016). Yng Nghymru, mae'r datblygiad o sgiliau llythrennedd a rhifedd yn elfen orfodol o'r cwricwlwm, gyda'r fframweithiau trawsgwricwlaidd yn amlinellu disgwyliadau o safonau rhifedd, llythrennedd, a chymhwyster digidol ar draws y camau cynnydd (Llywodraeth Cymru, 2022). Ar sail hyn felly, mae'r maes datblygu hon ar yr agenda cenedlaethol, a gwelir ysgolion yn ceisio cynllunio ar gyfer hyrwyddo'r sgiliau hyn o fewn pob maes y cwricwlwm.

Yn benodol i'r datblygiad o sgiliau rhifedd, datganodd yr OECD (2010) bod trwy hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhifedd, mae dysgwyr yn medru adnabod rôl mathemateg mewn cyd-destunau go iawn. Cefnogir y safbwynt hwn yn eang ar draws y llenyddiaeth, gyda gwaith Höfer & Beckmann (2009) yn awgrymu bod cynnydd rhifedd dysgwyr yn ei alluogi i gael dealltwriaeth ehangach o'r byd. Mae'r ymgorfforiad o rifedd ar draws y cwricwlwm felly yn darparu sgiliau i ddysgwyr i allu llwyddo fel dinasyddion llwyddiannus (Geiger et al., 2014). Er hyn, mae cyrhaeddiad dysgwyr yn amrywio, gyda'r Education Endowment Foundation (EEF) (2020) yn cyhoeddi bod dysgwyr gyda ADY a sy'n gymwys am brydiau bwyd am ddim, gyda bwlch cyrhaeddiad arwyddocaol rhyngddyn nhw a'i cyfoedion. Awgrymir felly bod angen i ymyraethau a gwahaniaethu effeithiol digwydd wrth gynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn sicrhau llwyddiant pob dysgwr.

Datblygiad Rhifedd

Ffocysir yr adroddiad hwn ar faes datblygu cyntaf CDY ysgol A, sy'n amlinellu'r targed o godi safonau'r medrau yn gyson trwy'r flwyddyn. Cynlluniwyd ar gyfer terfyn amser agored gan mae sgiliau rhifedd, llythrennedd a digidol yn cael ei ddatblygu'n barhaus ar draws pob maes dysgu ac ar draws yr holl cyfnod tair blynedd CDY yr ysgol hon. Yn ogystal â hyn, penodwyd cost y datblygiad hwn fel 'amser', gan maent yn maes sy'n deillio o sesiynau dysgu proffesiynol rhwng aelodau staff ar draws adrannau'r ysgol. Cynlluniwyd am welliant o fewn safonau'r medrau gan werthuso'r dystiolaeth ysgol gyfan, ac adnabod meysydd gwan cyffredin. Er mae'r maes datblygu yn amlinellu bwriad yr ysgol i ddatblygu'r holl medrau, ffocysir yr adroddiad hwn ar ddatblygiad safonau rhifedd yn benodol.

Mae sawl strategaeth yn cael ei weithredu yn ysgol Ac er mwyn datblygu safonau rhifedd ar draws yr ysgol, wrth iddynt ddilyn canllaw gwella ysgolion Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) i werthuso ar gryfderau a gwendidau'r maes, a chymryd atebolrwydd wrth gynllunio ar gyfer gwella. Un o brif strategaethau'r ysgol yw'r cynllun tasgau mathemateg yn ystod amser cofrestri ar Ddydd Iau. Ar hyn o bryd, strategaeth uwchradd yw hyn. Yn dilyn y sesiynau hyn, mae'r gwaith yn cael ei asesu o fewn gwersi mathemateg, wrth i addysgwyr ac arweinwyr y maes monitro cynnydd yn wythnosol, ac addasu cynlluniau'r sesiwn nesaf yn briodol. Eleni rhoddir ffocws i 'sgleinio'r saith', sef saith maes mathemategol sy'n peri'r problemau mwyaf ar draws CA3 a CA4, e.e. canrannau, amser ac unedau mesur. Rhoddir nifer o'r symiau hyn o fewn cyd-destun er mwyn ceisio hybu cynnydd cynaliadwy. O'r tasgau hyn mae enghreifftiau o safonau gwaith yn cael ei ddangos i ddysgwyr er mwyn gosod disgwyliadau a rhoi'r cyfle i ddysgwyr i hunanreoleiddio eu dysgu.

Yn ogystal â'r tasgau bore, mae cyfarfodydd rhwng yr adran mathemateg ac adrannau eraill yn cael ei threfnu, gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol, e.e. dilyn strwythur GELTU wrth blotio graffiau. Yn ogystal â hyn, trafodir gosod targedau parhaus a sefydlu dealltwriaeth ynglŷn â pha ddulliau cyfrifo dyled cael ei gyflwyno i ddysgwyr, gan fel nododd OECD (2016) mae'r un weledigaeth yn cael ei rannu ar draws aelodau staff. Er mwyn hyrwyddo'r cysondeb hyn rhwng y cynradd a'r uwchradd hefyd, mae diwrnodau pontio yn cael ei drefnu, ble mae dysgwyr blwyddyn 5 a 6 yn mynychu gwersi mathemateg gydag athrawon uwchradd. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i gyfeirio at yr hyn amlinellwyd yn y CDY ac i fonitro sut mae dysgwyr yn datblygu wrth iddynt symud trwy gamau cynnydd 2 a 3.

Yn olaf wedyn, mae profion cenedlaethol yn cael ei wirio er mwyn parhau i gasglu data a thystiolaeth ynglŷn â chamgymeriadau cyffredin ymysg dysgwyr. Mae'r proses hyn yn digwydd yn benodol rhwng yr adran mathemateg, arweinwyr datblygu'r safonau, a'r uwch dîm, er mwyn adolygu'r CDY ac ystyried pa strategaethau sydd angen cael ei gynllunio er mwyn gweld cynnydd pellach yn y flwyddyn olynol. Mae'r ysgol yn cydnabod nid yw'r profion hyn yn rhoi trosolwg llawn o gyrhaeddiad rhifedd dysgwyr, yn debyg i'r feirniadaeth o brofion PISA (Senedd Cymru, 2023), ond gan adnabod camgymeriadau cyffredin, cynlluniwyd gwersi mathemateg a chanllawiau i'r ysgol sy'n annog dysgwyr i ymarfer y meysydd hynny'n gyson.

Yn ogystal â'r strategaethau ffurfiol hyn, mae'r ysgol hefyd yn dilyn polisi drws agored, ble gellir pob addysgwr gwirio ei thasgau rhifedd gyda'r adran mathemateg. Mae hyn yn bolisi sy'n hybu atebolrwydd ymysg staff, gan hefyd alluogi'r arweinwyr i gyfeirio at dargedau'r CDY a chynllunio tasgau sy'n hyrwyddo datblygiad y maes. Mae hyn yn cadw'r proses o wella ysgol yn barhaus (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad). Mae ymyraethau rhifedd hefyd yn cael ei weithredu i ddysgwyr penodol, er mwyn cefnogi anghenion ychwanegol a sicrhau bod pob dysgwr gyda'r cyfle i lwyddo.

Adfyfrio a Gwerthuso

Does dim amheuaeth bod ysgol Ac yn gweithredu tipyn er mwyn datblygu'r targed o godi safonau rhifedd fel rhan o'i CDY. Ar sail hyn felly, mae rhaid cydnabod llwyddiant agweddau o'r strategaethau hyn, wrth i'r pennaeth adran mathemateg datgan ei fod wedi gweld elfen o gynnydd ers i'r cynlluniau hyn cael ei gweithredu. Dilynir yr ysgol y canllaw Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) yn llwyddiannus, wrth i bwyslais arwyddocaol amlygu ynglŷn â chasglu tystiolaeth o ambell ffynhonnell er mwyn gwerthuso a chynllunio yn wybodus. Maent yn wneud hyn gan gymryd atebolrwydd dros safonau rhifedd ar draws yr ysgol 3-19, wrth i staff cydweithio er mwyn ceisio cysondeb a chefnogi datblygiad addysgwyr i'w weithredu'n hyderus.

Yn ogystal â hyn, gellir dadlau bod trwy gynllunio ar gyfer rhifedd o fewn cyd-destun go iawn, maent wedi cefnogi cynnydd dysgwyr ym mhellach. Fel cyflwynodd yr OECD (2010), mae cyflwyno cyd-destun dilys yn bwysig er mwyn i ddysgwyr adnabod a datrys problemau rhifedd ar draws eu bywydau. Gwelir hyn i raddau yn ysgol A, wrth i lais y dysgwr dangos bod dysgwyr blwyddyn 7 ac 8 yn bennaf wedi deall pwrpas y tasgau ac yn teimlo ei fod wedi gweld cynnydd o ganlyniad (Lyle & Hendley, 2010). Mae'r defnydd o lais y dysgwr wedi bod yn gyson o fewn datblygiad y maes CDY hwn, gan ystyried adroddiad Estyn (2019), maent yn amlwg bod yr ysgol yn gwrandao ar safbwyntiau dysgwyr ac yn ceisio addasu strategaethau a thasgau yn briodol.

Er hyn, gan ddywed yr ysgol bod y cynnydd hwn yn bennaf wedi ei weld yn CA3, mae llwyddiant datblygiad y maes hwn wedi ei gyfyngu, gan nodwyd bod dysgwyr TGAU yn llai tebygol o gyflawni'r tasgau cofrestri. Gellir awgrymu bod hyn o ganlyniad i bwysau'r cymhwyster, gyda rhai dysgwyr yn cyflwyno i addysgwyr mathemateg ei fod nhw'n methu deall y dasg neu fod amser cofrestri ddim yn amser effeithiol iddyn nhw. Cysylltir hyn gyda phwyslais yr EEF (2020) ar sicrhau amodau dysgu ac addysgu sy'n cefnogi pob dysgwr, ac er mae'r nifer o ddysgwyr yr ysgol gyda ADY yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae sicrhau amgylchedd addas i bob dysgwr yn bwysig er mwyn cefnogi ei llwyddiant.

Gan werthuso ar ddysgu proffesiynol addysgwyr yr ysgol wedyn, mae ymdrechion yn sicr wedi bod i gael cysondeb ar draws yr ysgol ac i godi hyder addysgwyr i weithredu'r strategaethau hyn. Yn bennaf, mae hyn yn cael ei wneud trwy gyfarfodydd, diwrnodau HMS a nosweithiau hirnos. Nodwyd Harris (2013) bod datblygiad athrawon yn uniongyrchol dylanwadu ar ddatblygiad ysgol, ac felly gan mae'r flwyddyn gyntaf y CDY yw hi eleni, mae tipyn o lwyddiant wedi bod o fewn trefnu hyn. Er hyn, mae'r llwyddiant yn cael ei gyfyngu gan ddiffyg rheolaeth dros y tasgau cofrestri, ac felly nid yw rhai dosbarthiadau yn ei gyflenwi. Dros amser gall hyn achosi anghydbwysedd safonau rhifedd pellach, gan mae angen i gynnydd mewn meysydd datblygu cael ei weithredu'n barhaus fel cyfrifoldeb pob aelod o staff Llywodraeth Cymru (2022). Wrth fynd ymlaen i ddatblygu safonau rhifedd, gall ysgol A gweithredu mwy o gyfleoedd i hyfforddi athrawon ar fframwaith rhifedd Cwricwlwm i Gymru (2022) er mwyn sicrhau cysondeb ysgol gyfan yn fwy, ac i bwysleisio pwysigrwydd pob aelod o staff yn cydweithio ar gyfer hybu cynnydd safonau rhifedd pob dysgwr (Estyn, 2020). Yn ogystal â hyn, wrth i werthusiadau pellach cael ei wneud o'r CDY, gall yr ysgol ymgorffori mwy o gyfleoedd i ddysgwyr cynradd derbyn arbenigedd rhifedd o'r uwchradd hefyd.

Casgliad

Pwrpas yr adroddiad hwn oedd adfyfrio ar sut mae'r datblygiad o safonau rhifedd yn cael ei amlinellu gan Gynllun Datblygiad Ysgol, a sut fath o effaith mae'r camau gweithredu wedi cael ar gynnydd dysgwyr. Does dim amheuaeth bod yr ysgol yn ceisio sawl strategaeth er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i addysgwyr a dysgwyr i ddatblygu sgiliau rhifedd, a thrwy ddilyn canllawiau llywodraethol mae'r ysgol yn wneud ymdrech i werthuso yn barhaol a chynllunio yn effeithio i gyrraedd gofynion y dysgwyr. Er hyn, fel nodwyd uchod, eleni yw blwyddyn gyntaf y CDY, ac felly ni ddisgwylir i'r targed hon wedi ei gyflawni. Ar sail hyn felly, gellir crynhoi bod ysgol A gydag ymdrechion cadarnhaol er mwyn dilyn fframwaith rhifedd Cwricwlwm i Gymru (2022) a chanllawiau gwella ysgolion Llywodraeth Cymru (dim dyddiad), i osod targedau cynaliadwy. Er hyn, wrth fynd ymlaen, gall yr ysgol ceisio gweithredu mwy o gyfleoedd i ddatblygu dysgu proffesiynol addysgwyr, gan sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at yr un weledigaeth ac yn atebol am weithredu camau datblygu addas a pharhaus.

Rhestr Ffynonellau

British Educational Research Association [BERA] (2018) Ethical Guidelines for Educational Research. *London*. URL: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>

Education Endowment Foundation (2020) Special Educational Needs in Mainstream Schools. **Guidance Report**. URL: https://d2tic4wvo1iusb.cloudfront.net/production/eef-guidance-reports/send/EEF_Special_Educational_Needs_in_Mainstream_Schools_Guidance_Report.pdf?v=1709415807 Mynediad: 04/03/2024.

Estyn (2016) Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd. URL: <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Leadership%20and%20primary%20school%20improvement%20cy%20%20-%20new%20links.pdf> Mynediad: 04/03/2024.

Estyn (2017) Adroddiad Arolygu Ysgol [REDACTED]

Estyn (2020) Cynnwys pob un o'r staff yn y broses hunanwerthuso. URL: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-efeithiol/cynnwys-pob-un-or-staff-yn-y-broses-hunanwerthuso?_ga=2.200239725.2102066114.1671637717-948272467.1671637717 Mynediad: 03/03/2024.

Estyn (2020) Cynnwys pob un o'r staff yn y broses hunanwerthuso. URL: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-efeithiol/cynnwys-pob-un-or-staff-yn-y-broses-hunanwerthuso?_ga=2.200239725.2102066114.1671637717-948272467.1671637717 Mynediad: 03/03/2024.

Estyn (2020) Mae rhoi llais i ddisgyblion yn gwneud lles i agweddau at ddysgu ac yn helpu gwella'r ysgol. URL: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-efeithiol/mae-rhoi-llais-i-ddisgyblion-yn-gwneud-lles-i-agweddau-ddysgu-ac-yn-helpu-gwellar> Mynediad: 04/03/2024.

Estyn (2023) Arweinyddiaeth a gwella ysgolion. URL: https://www.estyn.llyw.cymru/additional-resources/arweinyddiaeth-gwella-ysgolion?_ga=2.78448020.160435017.1709541365-1630117488.1709541365 Mynediad: 04/03/2024.

Geiger, V., Forgasz, H., Goos, M. (2015) A critical orientation to numeracy across the curriculum. **ZDM Mathematics Education**. Vol 47, tud.611–624.

Harris, A. (2013) School Improvement: What's in it for Schools? *Routledge, London*.

Höfer, T., Beckmann, A. (2009) Supporting mathematical literacy: examples from a cross-curricular project. **ZDM Mathematics Edition**. Vol 41, tud.223–230.

Lyle, S., Hendley, D. (2010) Improving Learning by Taking Account of Learners' Perspectives. **The Teaching and Learning Research Programme in Wales**. tud.1-8. URL: <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-09/101206-improving-learning-taking-account-learners-perspectives-briefing-en.pdf> Mynediad: 04/03/2024.

Llywodraeth Cymru (2014) Cynlluniau Datblygu Ysgolion. **Canllawiau**. URL: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf> Mynediad: 04/03/2024.

Llywodraeth Cymru (2016) Cynlluniau Datblygu Ysgolion. tud.1-3. URL: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/28-cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf> Mynediad 03/03/2024.

Llywodraeth Cymru (2017) Datblygu Ysgolion Cymru i fod yn sefydliadau sy'n dysgu. <https://hwb.gov.wales/api/storage/b0629ddd-eebb-4741-9515-93e781212932/ysgolion-yng-nghymru-yn-gweithredu-fel-sefydliadau-syn-dysgu-cyflwyniad-powerpoint.pdf> Mynediad:03/03/2024.

Llywodraeth Cymru (2022) Canllawiau gwella ysgolion: asesiad o'r effaith. **Gwella ysgolion**. URL: <https://www.llyw.cymru/canllawiau-gwella-ysgolion-asesiad-or-effaith-html> Mynediad: 03/03/2024.

Llywodraeth Cymru (2022) Fframwaith Rhifedd. **Cwricwlwm i Gymru**. URL: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/fframweithiau-sgiliau-trawsgwricwlaidd/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd/> Mynediad: 04/03/2024.

Llywodraeth Cymru (2023) Cyflawniad disgyblion 15 mlwydd oed (Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr) PISA adroddiad cenedlaethol: 2022. **Ystadegau ac ymchwil**. URL: <https://www.llyw.cymru/cyflawniad-disgyblion-15-mlwydd-oed-rhaglen-ryngwladol-asesu-myfyrwyr-pisa-adroddiad-cenedlaethol-2022> Mynediad: 03/03/2024.

Llywodraeth Cymru (2023) Cynlluniau newydd i gymell gwelliant mewn mathemateg a llythrennedd. **Holl hysbysiadau**. URL: <https://www.llyw.cymru/cynlluniau-newydd-i-gymell-gwelliant-mewn-mathemateg-llythrennedd> Mynediad: 03/03/2024.

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. **Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd**. URL: <https://hwb.gov.wales/gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/canllawiau-gwella-ysgolion-fframwaith-ar-gyfer-gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/#cyflwyniad> Mynediad: 03/03/2024.

NASUWT (2016) Guidance on PISA (Wales). URL: <https://www.nasuwt.org.uk/advice/in-the-classroom/international-education-policy/guidance-on-pisa-wales.html#:~:text=The%20Main%20Concerns%20About%20PISA> Mynediad: 04/03/2024.

OECD (2010) PISA 2012 Mathematics Framework. URL: <https://www.oecd.org/pisa/pisaproducts/46961598.pdf> Mynediad: 04/03/2024.

OECD (2016) What makes a school a learning organisation? A guide for policy makers, school leaders and teachers. **Policy Advice and Implementation Support**. URL: <https://www.oecd.org/education/school/school-learning-organisation.pdf> Mynediad: 03/03/2024

Schildkamp, K. (2019) Data-based decision-making for school improvement: Research insights and gaps. **Educational Research**. Vol 61, Issue 3, tud.257-273.

Schmoker, M. (2003) First Things First: Demystifying Data Analysis. **Phi Delta Kappan - The Professional Journal for Education**. Vol 60, Rhif 5, tud.22-24.

Senedd Cymru (2023) Sut wnaeth Cymru berfformio yn PISA 2022? URL: <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/sut-wnaeth-cymru-berfformio-yn-pisa-2022/> Mynediad: 04/03/2024.

Ylimaki, R.M., Brunderman, L.A. (2022) School Development Approaches Over Time: Strengths, Limitations, and the Need for a New Approach. **Evidence-Based School Development in Changing Demographic Contexts**. Vol 24, tud.3-21.